

HYWEL ap DAFYDD ap IEUAN ap RHYS (HYWEL DAFI o Raglan, yn ôl Pen. MS. 101 (262)) (fl. c. 1450-80), bardd

**Enw:** Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Ray Looker

y ceir swm mawr o'i waith mewn llawysgrifau, a hwnnw'n cynnwys peth canu crefyddol a serch, a llawer o ganu traddodiadol i benedfigion ei gyfnod yn Neheudir Cymru, e.e. [Gruffudd ap Nicolas](#) o Ddinefwr, Phylip ap Tomas o Langoed yn sir Frycheiniog, Rhys ap Siancyn o Lyn Nedd, ac aelodau teulu [Herbertiaid](#) Penfro a Rhaglan. Ymddengys oddi wrth un o'r ddau ymryson a ganwyd rhyngddo a [Guto'r Glyn](#) ei fod yn fardd teulu yn Rhaglan. Canwyd ymrysonau eraill rhyngddo a [Bedo Brwynllys](#), a hefyd [Gruffudd ap Dafydd Fychan](#) a [Llywelyn Goch y Dant](#). Dywedir gan [Edward Jones](#) (ar dystiolaeth [Rhys Cain](#), y mae'n debyg) ei fod yn M.A., yn awdur hanes Prydain yn Lladin a hanes Cymru yn Gymraeg, a bod ei lawysgrifau yn dda a gwerthfawr. Ni ddaethpwyd o hyd i'r un ohonynt eto. Yn ôl *The Cambrian Biography, Cymru (O.J.)*, *Blackwell*, ac [Enwogion Cymru: a Biographical Dictionary of Eminent Welshmen](#)<sup>[r]</sup>, yr oedd Hywel yn r o Aberdâr, ond nid oes unrhyw brawf o hynny.

## Awdur

Ray Looker

## Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

Ifor Williams a J. Llywelyn Williams, *Gwaith Guto'r Glyn* (1939), 1939, 160, 173

H. Blackwell, [NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733240](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/><sup>[r]</sup>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

